# A. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. **Disgrifiwch ac esboniwch effeithiau'r cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

**Cefndir**

Cyhoeddwyd y Rhaglen Lywodraethu ar 17 Mehefin 2021 a oedd yn nodi'r ymrwymiadau uchelgeisiol a fydd yn cael eu cyflawni rhwng 2021 a 2026 i wella bywydau pobl ledled Cymru. Mae'n bwysig bod y Senedd a llywodraeth leol yn cynrychioli'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu'n agos, ac mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ddiwygio llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd. Ein gweledigaeth yw i Gymru fod yn fan lle mae'n hawdd i bob dinesydd gymryd rhan yn ein democratiaeth, cael llais mewn etholiadau a phleidleisio.

Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen uchelgeisiol o ddiwygio etholiadol i adeiladu ar waith a gyflawnwyd yn y pumed Senedd, gan gynnwys ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed drwy Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021 a Deddf Senedd ac Etholiadau Cymru 2021. Ar 29 Gorffennaf 2021, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ddatganiad ysgrifenedig yn nodi cyfres o flaenoriaethau, i alluogi mwy o bleidleiswyr sydd newydd gael eu hethol a phleidleiswyr presennol i gofrestru a phleidleisio yn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022. Rydym wedi llwyddo i wneud y canlynol:

- gweithio gydag awdurdodau lleol a'r gymuned etholiadol i gynyddu niferoedd cofrestru, yn enwedig drwy weithio gydag ysgolion.
- adeiladu ar sianeli presennol i gynyddu ymgysylltiad democrataidd cyffredinol, gan gynnwys helpu pobl ifanc i ddeall yr effaith mae llywodraeth leol yn ei chael ar eu bywydau.
- cefnogi pedwar prif gyngor i gyflwyno detholiad o gynlluniau peilot pleidleisio hyblyg i roi prawf ar wahanol fathau o bleidleisio ymlaen llaw, gan gynnwys rhoi cyfle i bobl ifanc bleidleisio yn yr ysgol a'r coleg.

**Ymgynghori**

Ym mis Hydref 2022, fe wnaethom gyhoeddi Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol a oedd yn ymgynghori ar set eang o gynigion i ddiwygio etholiadau Cymru. Cyhoeddwyd fersiynau Addas i Bobl Ifanc, Hawdd ei Deall ac Iaith Arwyddion Prydain o'r ymgynghoriad, ochr yn ochr â'r brif ddogfen. Cawsom 39 o

ymatebion i'r fersiwn sy'n addas i bobl ifanc a saith ymateb i'r fersiwn hawdd ei darllen, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cefnogi'r darpariaethau ar y cyfan. Ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r fformat Iaith Arwyddion Prydain.

Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. Y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol | LLYW.CYMRU

**Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer symleiddio a chryfhau gweinyddiaeth etholiadau Cymru, gwella cyfranogiad pleidleiswyr ac ymgeiswyr a chyflwyno gwelliannau ehangach i weithrediad democratiaeth leol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i roi 'sylw dyledus' i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad oes ganddynt y nodwedd honno. Mae'r Bil yr un mor berthnasol i bawb yng Nghymru a fydd yn elwa o'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith. Bydd yn gwella cyfranogiad mewn democratiaeth gan ystod ehangach o bobl, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig. Rhan allweddol o raglen waith y Bwrdd Rheoli Etholiadol a sefydlwyd ym Mhennod 1 y Bil fydd sicrhau bod etholiadau'n fwy hygyrch, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig. Bydd hefyd yn cynnal Llwyfan Gwybodaeth Etholiadau Cymru a fydd yn cynnwys gwybodaeth am ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol, i helpu etholwyr i wneud penderfyniadau gwybodus mewn etholiadau.  Bydd y darpariaethau ym Mhennod 4 y Bil i wella hygyrchedd ac amrywiaeth etholiadau Cymru o fudd arbennig i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

**Cymorth i bleidleiswyr anabl**

Cydnabuwyd ers tro y gall pobl anabl ei chael yn arbennig o anodd cael mynediad at y broses etholiadol, wrth wynebu rhwystrau corfforol wrth geisio pleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol[1].

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd ym mhob agwedd ar ei gwaith a chael gwared ar rwystrau, fel bod pobl anabl yn gallu cymryd rhan lawn. Cyn lansio ymgynghoriad y Papur Gwyn, roeddem wedi cwrdd â sefydliadau'r Trydydd Sector sy'n cynrychioli pobl anabl gan gynnwys

[1] Y Comisiwn Etholiadol, Elections for Everyone (https://www.electoralcommission.org.uk/report-elections-everyone)
Llywodraeth y DU. Access to Elections: Call for Evidence
(https://www.gov.uk/government/consultations/access-to-elections-call-for-evidence

Anabledd Cymru, RNIB, Mencap ac Anabledd Dysgu Cymru ac wedi ymgysylltu â'r Fforwm Cydraddoldeb Anabledd a'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl. Roedd y Papur Gwyn yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn ceisio chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag cymryd rhan yn y broses etholiadol. Roedd ein cynigion yn cynnwys defnyddio is-ddeddfwriaeth i osod dyletswydd ar swyddogion canlyniadau yn etholiadau Cymru i ddarparu unrhyw offer sy'n rhesymol fel ei bod yn haws i bobl anabl bleidleisio. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion hyn, ond roedd dau sefydliad Trydydd Sector yn poeni nad oedd yn mynd yn ddigon pell. Mynegodd yr RNIB bryderon nad oedd y cynnig yn cynnwys unrhyw sicrwydd y byddai cymorth sain ar gael hyd yn oed pe bai pleidleiswyr dall neu rannol ddall yn gofyn amdano. Byddwn yn ystyried y farn hon fel rhan o'n pecyn ehangach o ddiwygiadau etholiadol.

Mae'n amlwg nad yw'r darpariaethau presennol a amlinellir mewn rheoliadau i ddarparu dyfais bleidleisio gyffyrddadwy yn mynd yn ddigon pell o ran sicrhau bod pobl anabl yn gallu pleidleisio'n gwbl annibynnol ac yn gyfrinachol. Dangosir hyn gan yr achos Uchel Lys[2] lle dyfarnwyd nad yw darpariaethau'r Ddyfais Bleidleisio Gyffyrddadwy yn galluogi pleidleisiwr anabl i allu pleidleisio'n gwbl annibynnol ac yn gyfrinachol, gan nad oedd unrhyw arwydd o drefn ymgeiswyr ar y papur pleidleisio. Roedd gan randdeiliaid safbwyntiau cymysg ynghylch a ddylid manylu ynghylch yr offer yn y gyfraith. Bydd hyblygrwydd y darpariaethau is-ddeddfwriaethol arfaethedig, a fydd yn cael eu gwneud i'r Senedd a rheolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru – er enghraifft, peidio â bod yn benodol o ran yr offer sylfaenol i'w ddarparu – yn sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd wrth i dechnolegau newydd gael eu datblygu. Mae hefyd yn caniatáu i'r Swyddog Canlyniadau farnu pa gymorth ac offer sydd eu hangen mewn gorsafoedd pleidleisio penodol. Ar ben hynny, nid oedd nifer o randdeiliaid allweddol yn cefnogi hyn oherwydd heriau sy'n deillio o'r gwahaniaeth cynyddol rhwng etholiadau Cymru ac etholiadau a gedwir yn ôl.

Fe wnaeth dau ymatebwr i ymgynghoriad y Papur Gwyn hefyd nodi'r heriau posibl sy'n gysylltiedig â diwallu anghenion amrywiaeth eang o bleidleiswyr anabl ar draws nifer fawr o orsafoedd pleidleisio. Roedd themâu clir cysylltiedig mewn ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad ynghylch pa gymorth y dylid ei roi ar waith i sicrhau bod Swyddogion Canlyniadau yn gallu cyflawni eu rôl yn effeithiol, a oedd yn dod o fewn canllawiau, cyllid a hyfforddiant. Cydnabyddir hefyd y gallai natur amhenodol y darpariaethau arwain at lefel uchel o anghysondeb ar draws gorsafoedd Pleidleisio.

Fel rhan o'r newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Etholiadau 2022 sy'n ymwneud ag etholiadau a gedwir yn ôl, ymgynghorodd y Comisiwn Etholiadol ar ganllawiau drafft i Swyddogion Canlyniadau ar gymorth pleidleisio ar gyfer pobl anabl ym mis Rhagfyr 2022, a chafodd safbwyntiau'r ymatebwyr[3] eu hadlewyrchu yn y canllawiau terfynol

---

[2] R (Andrews) v Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet [2019]

[3] Ymateb i ymgynghoriad statudol ar ganllawiau i Swyddogion Canlyniadau ar gymorth i bleidleisio ar gyfer pobl anabl | Comisiwn Etholiadol

cyn belled ag y bo modd (gyda'r farn y byddai'n ddogfen fyw). Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyhoeddodd yr RNIB ei 'Adroddiad Turned Out'[4] a oedd yn edrych ar rai o'r rhwystrau yr oedd pleidleiswyr dall a rhannol ddall yn eu hwynebu a'r camau y gellid eu cymryd i wella profiad pleidleiswyr. Cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol y canllawiau terfynol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau o ran darparu cymorth pleidleisio i bleidleiswyr anabl ddechrau 2023[5].

Fel rhan o'r pecyn ehangach o ddiwygiadau, mae'r Bil yn darparu ar gyfer dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol bod yn rhaid i'w adroddiadau etholiadol gynnwys disgrifiad o'r camau a gymerwyd gan swyddogion canlyniadau i helpu pobl anabl i fwrw eu pleidlais. Bydd hyn yn cyd-fynd â newidiadau mewn is-ddeddfwriaeth a fydd yn rhoi dyletswydd ar swyddogion canlyniadau i ddarparu offer sy'n rhesymol i helpu pobl anabl i bleidleisio; gan ystyried canllawiau'r Comisiwn Etholiadol. Mae'r newidiadau hyn, sy'n berthnasol i bob etholiad datganoledig yng Nghymru, yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon.

Bydd hyn yn sicrhau cysondeb rhwng etholiadau Cymru ac etholiadau a gedwir yn ôl, gan ei gwneud yn haws i bleidleiswyr anabl ddeall eu hawliau ac i weinyddwyr ddarparu cymorth. Bydd y ddyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i adrodd ar y camau a gymerwyd yn ychwanegu rhywfaint o atebolrwydd ar Swyddogion Canlyniadau yn eu dyletswydd i gadw at y canllawiau a ddarperir.

Byddwn hefyd yn ei gwneud yn haws i gymdeithion helpu pleidleiswyr anabl yn etholiadau'r Senedd. Byddwn yn diwygio'r meini prawf ar gyfer cymdeithion yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) i efelychu'r rheolau ar gyfer etholiadau lleol. O'r herwydd, bydd y meini prawf ar gyfer cymdeithion yn cael eu hymestyn i unigolyn dros 16 oed.

Yn ogystal â'r camau deddfwriaethol i ddileu rhwystrau ffisegol mewn gorsafoedd pleidleisio, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid ac archwilio atebion nad ydynt yn ddeddfwriaethol i sicrhau bod anghenion pobl anabl, er mwyn gallu pleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol, yn cael eu diwallu. Gallai mesurau o lwyddiant y cynigion deddfwriaethol a chynigion nad ydynt yn ddeddfwriaethol yn y dyfodol gynnwys cynnydd yn nifer y pleidleiswyr sy'n pleidleisio, a mwy o hyder ynghylch y broses bleidleisio.

### Llwyfan gwybodaeth etholiadau Cymru

Dywed sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl ei bod yn anodd dod o hyd i ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy a hygyrch am y broses etholiadol ac nad yw rhai pobl anabl, yn enwedig y rheini sydd ag anabledd dysgu, yn gwybod eu bod yn gallu pleidleisio. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu gwefan

[4] Turned Out 2022 (rnib.org.uk)
[5] Sicrhau bod pleidleisio'n hygyrch | Y Comisiwn Etholiadol

sy'n cynnwys gwybodaeth i ymgeiswyr a phleidleiswyr am etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol.

**Amrywiaeth mewn pobl sy'n ceisio cael mynediad at swydd etholedig**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr sy'n ymgeisio am swydd etholedig drwy fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl â nodweddion gwarchodedig rhag ymgeisio am swydd. Roedd data cyfrifiad 2021 yn dangos bod 22.3% o fenywod a 19.8% o ddynion wedi nodi eu bod yn anabl yng Nghymru. Mae pobl anabl yn debygol o wynebu mwy o rwystrau wrth ymgeisio am swydd etholedig.
Rhaglen beilot oedd y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig a'i nod oedd rhoi cymorth i bobl anabl sy'n sefyll mewn etholiad. Roedd y gronfa beilot ar gael i unigolion a oedd yn sefyll etholiad yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 ac yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Cafodd y gronfa 21 cais gan ymgeiswyr a oedd yn sefyll yn etholiadau'r Senedd, etholiadau prif gynghorau ac etholiadau cynghorau tref a chymuned. Cafodd chwech o'r unigolion a dderbyniodd gymorth eu hethol yn llwyddiannus, pob un i gynghorau cymuned.

Roedd y cynllun peilot yn cynnwys:

- Gwasanaeth cynghori i annog a chefnogi pobl anabl i geisio cael eu hethol.
- Cymorth ariannol i helpu ymgeiswyr i dalu'r costau cefnogi ychwanegol sy'n angenrheidiol i gymryd rhan yn yr etholiad.
- Gweinyddu'r gronfa a rheoli'r dyraniadau sydd ar gael i gefnogi ymgeiswyr anabl.

Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol o drefniadau'r Gronfa beilot, gyda'r adroddiad yn cefnogi parhad y gronfa.

Roedd y Papur Gwyn yn cynnig y dylid rhoi'r gronfa hon ar sail ddeddfwriaethol, gyda dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal 'Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig' sydd ar gael ar gyfer pob etholiad cyffredin a thrwy etholiad yng Nghymru. Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig hwn a chadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol, mewn datganiad a wnaed yn y Senedd ar 16 Mai 2023, fwriad Gweinidogion Cymru i ddeddfu i sicrhau bod cronfa ar gael ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad sy'n cynnig ymestyn trefniadau'r gronfa beilot sy'n berthnasol i bobl anabl, i gynnwys unigolion o bob grŵp nodweddion gwarchodedig yn yr un gronfa. Roedd gwybodaeth a gasglwyd o ymchwil a gynhaliwyd, adborth o'r peilot (Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig) a'r digwyddiadau amrywiaeth a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023 yn awgrymu efallai na fyddai'r dull hwn yn cyflawni'r canlyniad polisi a ddymunir. Ar y

sail hon, mae’r Bil yn cynnwys dull amgen sy’n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith i annog a chefnogi unigolion o gefndiroedd amrywiol i sefyll mewn etholiad yn y Senedd ac etholiadau llywodraeth leol. Gall y trefniadau hyn gynnwys mesurau ariannol ac anariannol a gellir eu sefydlu am wahanol gyfnodau yn dibynnu ar natur y pecyn cymorth unigol a ddarperir. Fel rhan o’r trefniadau, rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun cymorth ariannol ar gyfer ymgeiswyr anabl er mwyn lleihau neu ddileu’r rhwystrau maent yn eu hwynebu wrth sefyll mewn etholiad. Bydd y Bil hefyd yn rhoi mesurau ar waith i ddiogelu annibyniaeth y trefniadau a sicrhau amhleidioldeb gwleidyddol.

**Cofnod o’r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig**:

Bydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig ac ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. Byddwn yn parhau i asesu’r effeithiau wrth i ni ddatblygu’r is-ddeddfwriaeth.

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi’n lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oedran, ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol), beichiogrwydd a mamolaeth, hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mewnfudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid), crefydd, cred a diffyg cred, rhyw / rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol (lesbiad, hoyw a deurywiol), priodas a phartneriaeth sifil, plant a phobl ifanc hyd at 18 oed, aelwydydd incwm isel | Effaith Gadarnhaol – Bydd y Bil yn gwneud darpariaeth i’w gwneud yn haws i bobl gofrestru i bleidleisio. Bydd yn helpu pleidleiswyr i ddod o hyd i wybodaeth am y broses etholiadol drwy roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu llwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr ar-lein. Bydd yn gwella amrywiaeth cynrychiolaeth yn strwythurau democrataidd y Senedd a Llywodraeth Leol, drwy roi dyletswydd ar | Crynhoir y dystiolaeth a ddefnyddir yng nghorff yr Asesiad Effaith hwn. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Weinidogion Cymru i ddileu rhwystrau rhag sefyll mewn etholiad ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.<br><br>Effaith Negyddol – dim wedi'i nodi. | | |
| Anabledd (ystyriwch fodel cymdeithasol o anabledd[6] a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi, neu y gellid ei ddefnyddio i ddileu, y rhwystrau sy'n gwneud pobl â gwahanol fathau o namau yn anabl) | Effaith gadarnhaol – Bydd y Bil (ar y cyd ag is-ddeddfwriaeth) yn darparu cymorth i'w gwneud yn haws i bobl anabl bleidleisio. Bydd hefyd yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru i sefydlu a chynnal cronfa i gefnogi ymgeiswyr anabl i sefyll am swydd etholedig.<br><br>Effaith Negyddol – dim wedi'i nodi. | Crynhoir y dystiolaeth a ddefnyddir yng nghorff yr Asesiad Effaith hwn. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

**Hawliau Dynol**

Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?
Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol?

**Erthygl 8 ECHR – hawl i fywyd preifat a theuluol**

Ymgysylltu posibl mewn perthynas â chofrestru etholiadol heb gais. Fodd bynnag, mae unrhyw effeithiau posibl yn gymesur ac mae mesurau digonol ar waith i liniaru unrhyw risgiau. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau cyfathrebu a osodir ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol, y cyfnodau aros estynedig cyn ychwanegu unigolyn at y gofrestr etholiadol, cyfyngiadau ychwanegol ar y rheini sy'n dal copïau o'r gofrestr lawn i'w harchwilio gan y cyhoedd a diddymu'r gofrestr olygedig mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae hyn yn lliniaru unrhyw

[6] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad namau sy'n gwneud pobl yn anabl, ond y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn chwalu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

risgiau a allai godi mewn perthynas â'r bobl hynny a allai fod yn gymwys i gael eu cofrestru'n ddienw.

**Hawliau Erthygl 10 (rhyddid mynegiant)**

Gallai cyflwyno cyfyngiadau penodol ar wariant trydydd parti gynnwys Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Fodd bynnag, ystyrir bod y mesurau yn y Bil yn angenrheidiol ac yn gymesur, ac maent wedi'u cynllunio i ddiogelu ymhellach hawl Erthygl 3, Protocol 1 i etholiadau rhydd ac felly ystyrir eu bod yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

**Erthygl 14: Amddiffyn rhag gwahaniaethu**

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol penodol wedi'u datgan.

**Erthygl 3, Protocol 1: Yr hawl i etholiadau rhydd**

Mae'r mesurau yn y Bil yn hyrwyddo'r hawl i gael etholiadau rhydd, er enghraifft drwy ddarparu mwy o wybodaeth am etholiadau ac ymgeiswyr, sicrhau tryloywder mewn gwariant trydydd parti yn ystod ymgyrch etholiadol, a darparu ar gyfer mwy o gydlynu a mecanwaith i dreialu arloesi etholiadol yn y dyfodol. Mae'r newidiadau i'r trosedd o ddylanwad gormodol yn sicrhau uniondeb y broses etholiadol ddemocrataidd, drwy ddiogelu dinasyddion i ganiatáu i'r etholfraint gael ei harfer yn rhydd.